



**Polisi ar gyfer Rheoli
Datblygu Gyrfa Meddygon ag Arbenigedd
yn Feddygon Arbenigol - Ailraddio**

Fersiwn 1.7 - Ebrill 2025

Cynnwys

Adran 1	2
Cwmpas, egwyddorion a buddion y polisi	2
1. Cyflwyniad	2
2. Datganiad polisi	2
3. Cwmpas	2
Adran 2	3
Proses ar gyfer ymgeisio, gwneud penderfyniadau	3
4. Meini prawf cymhwysedd	3
5. Meini Prawf ar gyfer Datblygiad/Ailraddio	3
6. Y Broses Ymgeisio	3
6.1. Paratoi ar gyfer cais	3
6.2. Trafodaeth gyda'r rheolwr llinell	4
6.3. Aseiad o'r cais	4
6.4. Canlyniad	4
7. Y Broses Apelio	5
7.1 Cyflwyno Apêl	5
7.2. Panel Apêl	5
7.3 Gwrandawriad Apêl	6
7.4. Penderfyniad	6
8. Monitro	6

Adran 1

Cwmpas, egwyddorion a buddion y polisi

1. Cyflwyniad

Yn 2021, cyflwynwyd rôl/gradd newydd o Arbenigwr fel rhan o'r diwygiad contract ehangach ar gyfer Meddygon SAS yn GIG Cymru i roi cyfle i feddygon ag arbenigedd profiadol iawn ddatblygu. Bwriad cyflwyno'r rôl oedd helpu i recriwtio, ysgogi a chadw uwch feddygon a chyfrannu at wneud graddau SAS yn ddewis gyrfa cadarnhaol a boddhaus.

Egwyddor y polisi hwn yw, lle gall meddyg ddangos ei fod yn meddu ar y sgiliau a'r profiad, ac wedi bod yn eu defnyddio, ac yn bodloni gofynion y fframwaith gallu ar gyfer y radd Arbenigwr, a bod y radd yn ofynnol yn erbyn yr angen am wasanaeth, y byddant yn symud ymlaen yn awtomatig i'r radd Arbenigwr.

Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu nac yn disodli'r broses i'w dilyn os bydd recriwtio cystadleuol i swydd wag, er enghraifft pan fydd Arbenigwr Cyswllt yn ymddeol a/neu pan fydd swydd newydd yn cael ei chreu.

2. Datganiad polisi

Mae Llywodraeth Cymru, Pwyllgor SAS Cymru Cymdeithas Feddygol Prydain a Chyflogwyr GIG Cymru yn cydnabod bod angen ymrwymiad clir i ddatblygu gyrfa meddygon ag arbenigedd er mwyn creu cyfleoedd i feddygon symud ymlaen yn eu gyrfaedd a fydd yn ei dro yn gwella gofal cleifion a mynediad at wasanaethau.

Roedd pob parti yn cydnabod yr angen i ddatblygu Polisi Cymru Gyfan sy'n nodi'r broses i feddygon ag arbenigedd (contractau 2021 a chyn 2021) ofyn i'w cyflogwr eu hasesu yn erbyn galluoedd generig y radd Arbenigwr i gydnabod yn iawn y rôl sy'n cael ei chyflawni.

Os asesir bod y meddyg yn gymwys yn erbyn y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer y radd a bod y radd yn ofynnol yn erbyn yr angen am wasanaeth, yna cynigir y cyfle i'r meddyg symud ymlaen yn awtomatig i'r radd Arbenigwr.

3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob Meddyg ag Arbenigedd presennol a newydd, waeth beth fo'u contract (2008 neu 2021), sy'n cael eu cyflogi o fewn GIG Cymru.

Adran 2

Proses ar gyfer ymgeisio, gwneud penderfyniadau

4. Meini prawf cymhwysedd

Rhaid bod â chofrestriad llawn a thrwydded i ymarfer gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu Rhaid bod â chofrestriad llawn a thrwydded i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
O leiaf 12 mlynedd o waith (naill ai cyfnod parhaus neu mewn cyfanrwydd) ers ennill cymhwyster sylfaenol neu O leiaf 12 mlynedd o waith deintyddol (naill ai cyfnod parhaus neu mewn cyfanrwydd) ers ennill cymhwyster deintyddol sylfaenol
O leiaf chwe blynedd mewn arbenigedd perthnasol yn y graddau meddyg ag arbenigedd neu SAS caeedig. Bydd blynyddoedd cyfatebol o brofiad mewn arbenigedd perthnasol o raddau meddygol eraill gan gynnwys o dramor hefyd yn cael eu derbyn.
Bodloni'r meini prawf a nodir yn fframwaith cymhwyseddau generig gradd Arbenigwr .
Mae canllawiau ar dystiolaeth ategol ar gael o ganllawiau penodi gradd Arbenigwr a chymharu rôl Cymdeithas Feddygol Prydain o Feddygon SAS .

5. Meini Prawf ar gyfer Datblygiad/Ailraddio

Rhaid bodloni dwy elfen allweddol ar gyfer datblygiad/ailraddio llwyddiannus:

- Bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn adran 6.
- Dangos bod angen gwasanaeth ar gyfer swydd arbenigol.

Ar ôl cyflwyno'r cais, dylai'r rheolwr llinell, ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Clinigol, archwilio'r angen am arbenigwr o fewn y tîm. Lle gall meddyg ag arbenigedd ddangos tystiolaeth ei fod eisoes yn gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar lefel cyfrifoldeb clinigol arbenigwr, bydd hyn yn cael ei ystyried yn dystiolaeth ddigonol o angen gwasanaeth. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gynnal clinigau cleifion allanol, rhestrau theatr ac ati yn annibynnol, hyd yn oed o dan ymgynghorydd enwebedig.

Pan nad yw meddyg ag arbenigedd yn gweithio ar lefel cyfrifoldeb clinigol arbenigwr ar hyn o bryd ond y byddai fel arall yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y radd, efallai y bydd yn dal i fod angen gwasanaeth tystiolaethadwy am arbenigwr yn eu hadran. Gall hyn gynnwys bylchau yn y rota uwch neu'r angen am fwy o glinigwyr ymreolaethol o fewn yr adran.

6. Y Broses Ymgeisio

6.1. Paratoi ar gyfer cais

Dylai meddygon ag arbenigedd a'u rheolwyr llinell fod yn trafod datblygiad gyrfa yn barhaus fel rhan o asesiadau rheolaidd a chynllunio swyddi. Dylai'r trafodaethau hyn gynnwys, yn enwedig pan fydd y meddyg ag arbenigedd yn cyrraedd y trothwy cynnydd cyflog uwch, ystyriaeth o'r cymhwyseddau a'r sgiliau a ddisgrifir yng ngalluoedd generig gradd yr Arbenigwr. Bydd y rheolwr llinell, ar ôl ymgynghori â'r meddyg ag arbenigedd, yn nodi ac yn cefnogi cyfleoedd yn rhagweithiol o fewn rôl bresennol y meddyg ag arbenigedd iddynt ddatblygu'r cymhwyseddau a'r sgiliau hyn pan nad ydynt yn Polisi ar gyfer Rheoli

Datblygu Gyrfa Meddygon ag Arbenigedd yn Feddygon Arbenigol - Ailraddio

eu bodloni ar hyn o bryd. Dylai hyn gynnwys cefnogi cyfleoedd secondiad hybrid neu lawn-amser i ddatblygu sgiliau clinigol a sgiliau eraill lle gall gwasanaethau gefnogi hyn yn ddiogel.

6.2. Trafodaeth gyda'r rheolwr llinell

Pan fo meddyg ag arbenigedd yn teimlo y gall ddangos ei fod yn bodloni meini prawf cymhwysedd y radd Arbenigwr, dylai ofyn am gyfarfod â'i reolwr llinell i drafod cais i ddatblygu/ailraddio i rôl/gradd arbenigol. Dylai'r cyfarfod hwn fod yn adeiladol ac yn gefnogol. Gall y meddyg ag arbenigedd ofyn i'r eiriolwr SAS fynychu'r cyfarfod hwnnw gydag ef.

Pan fo'r rheolwr llinell yn teimlo y gall gefnogi'r cais, dylai gefnogi'r Meddyg ag Arbenigedd i lenwi'r ffurflen gais MST Ffurflen Gais Datblygiad Gyrfa Meddyg ag Arbenigedd a darparu datganiad o gefnogaeth yn nodi'r ffordd y mae'n credu bod y meini prawf cymhwysedd wedi'u bodloni.

Pan nad yw'r rheolwr llinell yn teimlo y gall gefnogi'r cais ar yr adeg honno, rhaid iddo gadarnhau ei safbwynt yn ysgrifenedig a rhoi ei resymau dros wrthod cefnogi ei gais i'r meddyg ag arbenigedd ar yr adeg honno o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

Mae'n bwysig bod y rhesymau wedi'u nodi'n glir a'u bod yn canolbwyntio ar elfennau o'r meini prawf cymhwysedd nad ydynt wedi'u bodloni neu wedi'u dangos.

Dylai hyn nodi meysydd sydd eu hangen ar gyfer datblygiad pellach ac amlinellu cynllun gweithredu i gynorthwyo'r meddyg ag arbenigedd i gyflawni'r cymwyseddau o fewn cyfnod penodol.

Gall y meddyg ag arbenigedd ddewis llenwi a chyflwyno'r ffurflen gais MST Ffurflen Gais Datblygiad Gyrfa Meddyg ag Arbenigedd. Fe'u cynghorir i gynnwys y rhesymau ysgrifenedig dros wrthod cefnogi'r cais.

Cyflwynir pob Cais i'r [Porth Dilyniant Gyrfa Meddygon ag Arbenigedd Canolog](#), a weinyddir gan Gyflogwyr GIG Cymru.

6.3. Asesiad o'r cais

Bydd y ffurflen gais yn cael ei hanfon ymlaen o Borth Dilyniant Gyrfa Meddygon ag Arbenigedd i dîm gweithlu meddygol y cyflogwr a fydd yn ei symud ymlaen. Dylid cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ystyried y cais yn y ffurflen.

Bydd y Tîm Gweithlu Meddygol yn cadarnhau derbyniad i'r Meddyg ag Arbenigedd a'r rheolwr llinell ac yn nodi'r amserlen ar gyfer cam nesaf y broses.

Bydd panel, sy'n cynnwys o leiaf un uwch arweinydd clinigol annibynnol, aelod o staff sydd â goruchwyliaeth glinigol o'r tîm dan sylw, ac aelod o Adnoddau Dynol, yn cael eu nodi o fewn 20 diwrnod gwaith i ystyried y cais a naill ai ei dderbyn neu ei wrthod, neu ofyn am ragor o wybodaeth gan y meddyg ag arbenigedd a'i reolwr llinell. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, wahoddiad i drafod y cais gyda'r panel. Ni ddylid gwrthod unrhyw feddyg heb gael gwahoddiad i gyfweiliad yn gyntaf; fodd bynnag, nid yw cyfweiliad yn rhagofyniad ar gyfer derbyn pan fo'r ffurflen gais wedi dangos yn ddigonol yr achos dros ailraddio.

6.4. Canlyniad

Rhaid ystyried pob cais o fewn 20 diwrnod gwaith i gynnull y panel. Ni fydd diffyg cyllideb yn unig ar gyfer unrhyw gostau cynyddol oherwydd yr ailraddio yn rheswm dros wrthod cais i gael eich ailraddio.

Os derbynnir y cais, bydd y meddyg ag arbenigedd yn cael ei ailraddio yn arbenigwr. Dyddiad cymhwyso'r ailraddio fydd dyddiad cyflwyno'r ffurflen i'r porth canolog. Efallai y bydd angen

Polisi ar gyfer Rheoli

Datblygu Gyrfa Meddygon ag Arbenigedd yn Feddygon Arbenigol - Ailraddio

adolygiad o'r cynllun swydd os nad yw cynllun swydd presennol y meddyg ag arbenigedd yn gydnaws â therfynau gwaith y TCS arbenigol, neu pan fo dyletswyddau ychwanegol neu wahanol yn gysylltiedig â'r ailraddio. Ni ddylai hyn oedi'r ailraddio yn ormodol.

Os gwrthodir y cais, rhaid rhoi adborth manwl wyneb yn wyneb i'r meddyg ag arbenigedd ar ei gais, y rhesymau dros wrthod, a, lle bo'n berthnasol, meysydd i'w gwella o ran cymwyseddau sy'n ofynnol i fodloni'r meini prawf cymhwysedd. Dylid nodi hyn ymhellach yn ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod.

Ffigur 1 - Canlyniadau

Canlyniad 1	Bodlonir y ddau amod – mae'r meddyg yn dod yn arbenigwr a chytunir ar gynllun swydd yn unol â hynny i sicrhau bod yr arbenigwr a'r gwasanaeth/gwaith arbenigol wedi'u cynnwys.
Canlyniad 2	Nid yw'r meddyg yn bodloni'r meini prawf, ond mae'r angen am feddyg arbenigol wedi'i gadarnhau. Rhoddir cefnogaeth ar waith i'r meddyg ddatblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau i'w galluogi i ail-ymgeisio'n llwyddiannus am y rôl arbenigol.
Canlyniad 3	Mae'r meddyg yn bodloni'r meini prawf, ond nid oes gan y gwasanaeth y gofyniad am feddyg arbenigol ymreolaethol yn unman o fewn y bwrdd iechyd. Cefnogir y gwasanaeth gan dimau gweithredol a thimau gweithlu i nodi swydd arbenigol addas y gellir lleoli'r meddyg ynddi o fewn amser rhesymol a gellir atal recriwtio ar gyfer ymarferwyr ymreolaethol amgen o fewn yr un is-arbenigedd nes bod y meddyg wedi'i benodi'n briodol.
Canlyniad 4	Nid yw'r meddyg yn bodloni'r meini prawf, ac nid oes angen rôl arbenigol ar y gwasanaeth. Darperir adborth ynghylch datblygiad pellach ond nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill, oni bai bod cynllunio gweithlu'r gwasanaeth wedi nodi angen yn y dyfodol ac yn yr achos hwnnw caiff Canlyniad 2 ei weithredu.

Ym mhob achos pan fo angen datblygiad pellach i fodloni meini prawf, dylai'r bwrdd iechyd roi cynllun ar waith i helpu'r meddyg i ddatblygu'r cymwyseddau angenrheidiol fel rhan o'r prosesau DPP. Dylai hyn ddechrau gydag adborth manwl o'r cais ar sut y cawsant eu mesur yn erbyn y cymwyseddau a sut mae angen iddynt wella. Bydd y bwrdd iechyd yn goruchwyllo cynnydd y cynllun ac yn darparu cefnogaeth i'r meddyg am hyd at ddwy flynedd. Os na wneir unrhyw gynnydd sylweddol tuag at gyflawni amcanion y cynllun, gall y bwrdd iechyd roi'r gorau i'w gefnogaeth.

7. Y Broses Apelio

7.1 Cyflwyno Apêl

Gall ymgeiswyr aflwyddiannus apelio'n ysgrifenedig o fewn ugain diwrnod gwaith i ganlyniad ysgrifenedig eu cais, gan fanylu ar y pwyntiau sy'n destun anghydfod.

7.2. Panel Apêl

Bydd y panel yn cynnwys arweinydd Clinigol Uwch priodol, yr Eiriolwr SAS ac uwch aelod o'r adran Adnoddau Dynol. Ni chaiff unrhyw aelod o'r panel fod wedi ymwneud â'r cais o'r blaen. Os oes gwrthdaro buddiannau, gellir gofyn i Eiriolwr SAS o fwrdd iechyd arall fynychu yn lle. Dylid ystyried ceisio cyngor gan gynrychiolydd SAS o'r Coleg Brenhinol perthnasol.

Polisi ar gyfer Rheoli

Datblygu Gyrfa Meddygon ag Arbenigedd yn Feddygon Arbenigol - Ailraddio

7.3 Gwrandawriad Apêl

Rhaid derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig wythnos cyn y gwrandawriad. Gall meddygon gyflwyno eu hachos yn bersonol neu gyda chymorth. Gellir cynnwys tystion arbenigol os oes angen.

7.4. Penderfyniad

Rhaid darparu'r penderfyniad i'r meddyg o fewn 15 diwrnod gwaith o ddyddiad y gwrandawriad apêl. Os caiff yr apêl ei chadarnhau, bydd y dyddiad gweithredu yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad y cyflwynwyd y cais i'r porth ar-lein.

8. Monitro

Bydd y polisi hwn yn cael ei archwilio'n rheolaidd a'i adolygu'n llawn bob dwy flynedd gan y Grŵp Busnes Meddygol a Deintyddol, neu'n gynt os bydd newidiadau deddfwriaethol yn digwydd. Bydd byrddau iechyd yn adrodd ddwywaith y flwyddyn i MDBG ar nifer (a gwybodaeth ddemograffig) y meddygon ag arbenigedd sy'n gwneud cais i gael eu hailraddio, nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a'u gwrthodwyd, nifer yr apeliadau a chanlyniadau'r apeliadau.